
Adroddiad Blynyddol Ofcom i Gomisiynydd y Gymraeg

Ein cynnydd o ran cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg
2020-21

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	1
2. Ynghylch Ofcom	3
3. Ein hymagwedd	4

Atodiad

A1: Ein Gweithdrefn Safonol ar gyfer Cyfieithu Dogfennau	8
----------------------------------------------------------	---

1. Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn nodi ein cynnydd blynyddol o ran cydymffurfio â deddfwriaeth y Gymraeg yn ystod 2020-2021.¹

Darparwyd y ddeddfwriaeth hon, sef 'Safonau'r Gymraeg', i Ofcom mewn hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Ionawr 2017.² Roedd hyn yn cynnwys 141 o Safonau, a fu'n galluogi ni i gynyddu ein gwaith yn y Gymraeg, megis cynhyrchu rhagor o ymchwil gyda defnyddwyr a gwybodaeth am ein gwaith.

Rydym yn parhau'n ymroddedig i hybu'r Gymraeg a galluogi pobl i ryngweithio ag Ofcom yn eu dewis iaith o'u dewis – boed hynny yn Gymraeg neu Saesneg. Rydym wedi cyflawni hyn mewn ffordd gymesur sy'n gweddu i'n dyletswyddau presennol.

Cynnydd Ofcom o ran y Gymraeg

Mae Ofcom yn ymroddedig i fodloni ein rhwymedigaethau iaith Gymraeg. Rydym yn falch o'r ffordd yr ydym yn ymgorffori'r Gymraeg yn ein gwaith yn ddi-dor. Mae ein gwaith yn y Gymraeg wedi parhau heb ymyrraeth yn ystod cyfnod heriol y pandemig Covid-19.

Fel llawer o bobl, mae'r tîm wedi cael ei effeithio gan Covid-19, gan gynnwys y rhai sydd wedi colli aelodau teulu agos yn ystod y pandemig. Mae ein cydweithwyr ar draws y DU wedi darparu cefnogaeth gynhwysfawr drwyddi draw, i sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau o ran y Gymraeg yn ystod argyfwng cenedlaethol digynsail.

Rydym wedi parhau i addasu ein rhaglen ddigwyddiadau'n llwyddiannus i'r cyfyngiadau Covid-19 i sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Rydym wedi cynnal dau ddigwyddiad rhithwir yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan ddefnyddio technoleg cyfieithu ar y pryd, i sicrhau y gall cyfranwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn ddi-rwystr.

Mae gan hysbysiad cydymffurfio terfynol Ofcom gan Gomisiynydd y Gymraeg awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth iawn Ofcom. Mae gennym Uwch Gynghorydd yr Iaith Gymraeg a Swyddog Iaith Gymraeg newydd mewn swydd i reoli gweithgareddau Cymraeg Ofcom. Mae hyn yn cynnwys gwaith cydymffurfio, gofynion cyfieithu, cyfryngau cymdeithasol, cynyrchiadau printiedig ac ar-lein.

Wrth gynhyrchu ein cyfathrebiadau Cymraeg, rydym yn teilwra ein dull i sicrhau bod y cynnwys yn berthnasol i'n cynulleidfaoedd yng Nghymru ac yn cael ei gyfathrebu mewn ffordd sy'n ennyn diddordeb. Mae ein prif weithgareddau wrth weithio yn y Gymraeg dros y flwyddyn ddiwethaf wedi cynnwys:

- Penodi Swyddog yr Iaith Gymraeg ym mis Hydref 2020 i gefnogi Uwch Gynghorydd y Gymraeg.

¹Rhwng Medi 2020 a Medi 2021.

² https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0026/96920/Hysbysiad-Cydymffurfio44-Y-Swyddfa-Gyfathrebiadau-cy.pdf

- Cyfieithu dros 500,000 o eiriau i'r Gymraeg gan gynnwys cyhoeddiadau allweddol megis [Cyfryngau'r Genedl Cymru](#), fu'n edrych ar newidiadau yn y ffordd y mae cynulleidfaoedd yn cael eu gwasanaethu gan wasanaethau fideo a sain yng Nghymru.
- Cynhyrchu nifer o fideos yn Gymraeg, yr ydym wedi'u rhannu ar gyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys ein fideo [Amrywiaeth mewn Darlledu](#), gyda chyfraniadau yn y Gymraeg gan arweinwyr y sector.
- Lansio ein [hyb materion Cymraeg ar-lein](#), gan gynnwys fideo newydd i hybu ein gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg.
- Lansio [e-gylchlythyr dwyieithog misol i ddefnyddwyr](#) y gellir tanysgrifio iddo.

Mae manylion llawn ein gweithgareddau Cymraeg dros y flwyddyn ddiwethaf ar gael yn Adran 3.

2. Ynghylch Ofcom

- 2.1 Ofcom yw rheoleiddiwr cyfathrebiadau annibynnol y DU. Gyda'n pencadlys yn Llundain a swyddfeydd ym mhob un o wledydd y DU, rydym yn rheoleiddio'r sectorau teledu, radio, a fideo ar-alw, telathrebu llinell sefydlog a symudol, gwasanaethau post a'r tonnau awyr y mae dyfeisiau di-wifr yn eu defnyddio. Yn gynharach eleni, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei [Mesur Diogelwch Ar-lein drafft](#), sy'n cyflwyno cyfrifoldebau newydd i Ofcom i ddiogelu pobl pan fyddant ar-lein. Rydym hefyd yn ymgymryd â chyfrifoldebau newydd mewn perthynas â diogelwch telathrebu.
- 2.2 Mae Ofcom yn sicrhau y gall pobl yn y DU fanteisio i'r eithaf ar eu gwasanaethau cyfathrebu a chael eu diogelu rhag sgamiau ac arferion annheg, ar yr un pryd â sicrhau y gall cystadleuaeth ffynnu. Mae ein pwerau a'n dyletswyddau wedi'u disgrifio mewn nifer o Ddeddfau Seneddol y DU.

Ofcom yng Nghymru

- 2.3 Er bod pencadlys Ofcom yn Llundain, gwnawn yn sicr fod gennym drosolwg ar draws gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig. Mae'n ddyletswydd statudol arnom i roi sylw, ymysg pethau eraill, i farn a buddiannau'r rhai sy'n byw yn y gwahanol rannau o'r DU. Arweinir ein gweithrediadau yn y gwledydd gan uwch Gyfarwyddwyr yng Nghaerdydd, Llundain, Caeredin a Belfast. [Cyhoeddodd Ofcom yn ddiweddar](#) y bydd yn agor hyb technoleg newydd ym Manceinion a fydd yn weithredol cyn bo hir. Gall ein swyddfeydd yn y Gwledydd alw ar adnoddau llawn y sefydliad cyfan i fynd i'r afael â'r materion sy'n effeithio ar un ran o'r DU.
- 2.4 Mae swyddfa Ofcom Cymru wedi'i lleoli yng Nghaerdydd ac yn cyflogi pum aelod o staff amser llawn sy'n siarad Cymraeg yn rhugl, ac un aelod o staff rhan-amser sy'n ddi-Gymraeg. Mae Ofcom yn darparu gwybodaeth i annog staff i ddysgu Cymraeg ar y mewnwyd staff. Mae'r sefydliad hefyd yn talu am wersi Cymraeg i staff.

Ymgysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg

- 2.5 Mae Ofcom wedi ymgysylltu mewn ffordd adeiladol â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg am nifer o flynyddoedd, gan sicrhau bod gennym ddealltwriaeth drwyadl o ofynion y Comisiynydd.
- 2.6 Rydym wedi mynychu sesiynau briffio a drefnwyd gan y Comisiynydd ac ymateb yn amserol i bob ymholiad ynglŷn â'r Gymraeg. Roeddem yn falch o gyfrannu at Ymgynghoriad diweddar Comisiynydd y Gymraeg ar God Ymarfer Drafft. Croesawn gyfleoedd pellach i ymgysylltu â'r Comisiynydd a'i dîm.

3. Ein hymagwedd

3.1 Mae Ofcom yn mynd ati i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Wrth ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg, rydym yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin ar yr un sail â Saesneg yng Nghymru. Mae hyn yn berthnasol i:

- gyflwyniad gweledol deunyddiau
- pryd a sut y caiff y deunyddiau eu cyhoeddi, eu darparu neu eu harddangos
- maint, safle ac amlygrwydd y deunydd mewn unrhyw fan cyhoeddus yn ogystal â'i fformat cyhoeddi.

Mae ein dull wedi'i ddylunio i alluogi pobl i ymwneud â'n gwaith trwy'r Gymraeg.

3.2 Rydym yn arloesi yn ein cyfathrebiadau, a bob amser yn annog mwy o gyfranogiad gan siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys gwahodd amrywiaeth o gyfranwyr allanol sy'n medru'r Gymraeg i gymryd rhan yn ein digwyddiadau cyhoeddus, gan gynhyrchu cynnwys rhyngweithiol yn y Gymraeg ac ennyn diddordeb trwy gynnwys gysylltiedig â Chymru ar gyfryngau cymdeithasol.

3.3 Wrth benderfynu pryd i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg, rydym yn cymhwyso maen prawf cyson. Os yw'r pwnc dan sylw yn ymwneud â materion sy'n effeithio ar ddinasyddion a busnesau yng Nghymru, neu'n debygol o fod yn arbennig o berthnasol iddynt, byddwn yn darparu gwasanaeth Cymraeg fel mater o drefn.

Ein cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf

3.4 Mae ein Swyddog yr Iaith Gymraeg newydd wedi bod yn ei swydd ers mis Hydref 2020. Mae'r Swyddog Iaith Gymraeg yn Gyfieithydd proffesiynol, ac wedi galluogi ni i fireinio ein prosesau cyfieithu a sefydlu System Rheoli Cof Cyfieithu fewnol. Mae'r rôl Cymraeg yn Hanfodol newydd hon hefyd wedi'n galluogi i ddatblygu ein hallbwn Cymraeg ymhellach a darparu cefnogaeth i'n Huwch Ymgynghorydd y Gymraeg.

3.5 Ym mis Mehefin 2021 gwnaethom hysbysebu tair swydd wag ar ein pwyllgor Cynghori Cymru gyda siarad Cymraeg fel maen prawf dymunol. Oherwydd y cyfyngiadau Covid-19, cynhaliwyd y cyfweiliadau ar-lein gan ddefnyddio cyfieithu ar y pryd i sicrhau y gallai ymgeiswyr ddefnyddio'r Gymraeg yn ddi-rwystr. Mae'r broses o recriwtio i'r swyddi hyn yn mynd rhagddo.

3.6 Ym mis Awst 2021, gwnaethom hysbysebu swydd wag am Aelod o Fwrdd Cynnwys Ofcom dros Gymru gyda siarad Cymraeg fel maen prawf dymunol. Mae'r broses o recriwtio i'r swydd hon yn mynd rhagddo.

3.7 Hysbysebodd Ofcom swydd Cymraeg yn hanfodol newydd, Swyddog Materion Rheoleiddiol Cymru, ym mis Medi 2021. Y rôl hon fydd y prif bwynt cyswllt yng Nghymru wrth i Ofcom ymgymryd â chyfrifoldeb dros ddiogelwch ar-lein. Mae'r ffaith bod y rôl hon yn 'Gymraeg yn hanfodol' yn golygu y bydd gan yr unigolyn y sgiliau a'r wybodaeth i ymwreiddio'r Gymraeg o'r cychwyn cyntaf.

- 3.8 At ei gilydd, cyfieithodd Ofcom tua 500,000 o eiriau i'r Gymraeg dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys adroddiadau, cylchlythyron, datganiadau newyddion, diweddariadau e-bost a thudalennau gwe³.
- 3.9 Rydym wedi cynhyrchu sawl fideo Cymraeg ar amryw o themâu gan gynnwys [Amrywiaeth a darlledu yng Nghymru](#), [Ein Gwlad Ar-lein](#) a'n fideo [Gwybodaeth i Ddefnyddwyr](#) a'u rhannu ar Gyfryngau Cymdeithasol ac ar ein gwefan.
- 3.10 Ym mis Medi 2021 gwnaethom lansio [ein Hyb ar-lein newydd](#). Mae'r Hyb yn hybu ein gwaith yn y Gymraeg ac yn darparu gwybodaeth am ein hymrwymadau Cymraeg mewn un lle. Mae'n amlwg ar ein gwefan gan y gellir cael mynediad ato trwy droedyn pob tudalen. Mae hefyd yn cynnwys fideo newydd wedi'i animeiddio sy'n darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am y gwasanaethau a ddarparwn yn Gymraeg.
- 3.11 Mae ein cyfrif Twitter DU gyfan yn Saesneg yn [hyrwyddo ein cyfrif Cymraeg yn rheolaidd](#). Denodd [trydar yn Saesneg fu'n amlygu poblogrwydd dysgu Cymraeg ar Duolingo](#) yn ystod y cyfnod clo yr ymgysylltiad mwyaf o'n hymgyrch Ein Gwlad Ar-lein.
- 3.12 Bu i ni lansio fersiwn newydd o'n [teclyn gwirio darpariaeth symudol a band eang](#) yn gynharach eleni. Mae'r teclyn gwirio'n darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr ar wasanaethau band eang a symudol er mwyn iddynt wneud dewisiadau mwy gwybodus. Diweddarwyd y fersiwn Cymraeg ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg.
- 3.13 Cyhoeddir ein [e-gylchlythyr newydd i ddefnyddwyr](#) yn fisol ac mae ar gael yn Gymraeg a Saesneg i danysgrifwyr.
- 3.14 Mae ein digwyddiadau yng Nghymru'n cynnwys cyfranogwyr a chyflwyniadau dwyieithog, gyda rhanddeiliaid yn dewis siarad Cymraeg yn y sesiynau holi ac ateb. Rydyn ni'n darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn ein digwyddiadau yng Nghymru, gan alluogi cyfranogwyr i gyfrannu yn yr iaith y maent yn fwyaf cyfforddus ynddi. Mae ein digwyddiadau ar-lein yng Nghymru dros y flwyddyn ddiwethaf wedi cynnwys ein digwyddiad Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr ym mis Tachwedd 2020 a'n digwyddiad Cynllun Blynyddol Ofcom ym mis Chwefror 2021. Darparwyd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y rhith-ddigwyddiadau hyn gan ddangos ein gallu i addasu'n llwyddiannus i'r cyfyngiadau Covid-19 ar ddigwyddiadau byw a pharhau i gydymffurfio â deddfwriaeth y Gymraeg.
- 3.15 Bu i ni gynhyrchu ystod o gyhoeddiadau o bwys yn y Gymraeg yn ddiweddar, gan gynnwys y Datganiad Adolygu Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr⁴; Adroddiad Blynyddol Ofcom 2020-21⁵; Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2020⁶; Cysylltu'r Gwledydd Cymru 2020⁷ a Chyfyngau'r Genedl Cymru 2021⁸.

³Rhwng Gorffennaf 2020 a Gorffennaf 2021

⁴<https://www.smallscreenbigdebate.co.uk/cymru/statement>

⁵<https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/annual-reports-and-plans/2020-21-annual-report>

⁶<https://www.ofcom.org.uk/cymru/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/bbc-operating-framework/performance/bbc-annual-report>

⁷https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0026/209465/connected-nations-2020-wales-cym.pdf

⁸https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0021/222915/wales-report-2021-cym.pdf

- 3.16 Mae ein hymgyngoriadau o bwys⁹ yn cynnwys ffurflen ymateb yn y Gymraeg, i sicrhau y gall siaradwyr Cymraeg ddarparu adborth a sylwadau yn eu dewis iaith.
- 3.17 Fel a argymhellir yng nghanllawiau arfer gorau Comisiynydd y Gymraeg, bu i ni sefydlu grŵp Eiriolwyr y Gymraeg ym mis Mawrth 2021. Mae Ofcom yn sefydliad DU gyfan gyda thros 1000 o aelodau staff. Ein nod, trwy ymwreiddio Eiriolwyr mewn timau allweddol ar draws y sefydliad, yw sicrhau yr ystyrir deddfwriaeth y Gymraeg yn y camau cynnar o gynllunio prosiect. Mae'r Eiriolwyr hefyd wedi cymryd rhan mewn adolygiad o brosesau Cymraeg yn eu timau ym mis Awst 2021.
- 3.18 Yn ddiweddar gwnaethom lansio offeryn rheoli prosiectau mewnol newydd, PPM Anywhere. Mae hyn yn cynnwys maes Cymraeg gorfodol ar gyfer rheolwyr prosiect a pholisi i hysbysu tîm y Gymraeg am unrhyw brosiectau sydd angen ein mewnbwn yn y camau cynllunio cynnar.
- 3.19 Mae ein mewnrwyd Staff newydd yn dangos cynnwys Cymraeg newydd. Mae hyn yn cynnwys fideos sy'n esbonio mwy am y Gymraeg, ei hanes a datblygiad, ein trefnau cyfieithu, adnoddau ychwanegol i ddysgwyr a gwybodaeth am ein rhwymedigaethau cyfreithiol.
- 3.20 Mae cyflwyniad i'n gwaith yn y Gymraeg wedi bod yn rhan annatod o'n broses gynefino i staff newydd yng Nghymru ers blynyddoedd lawer. Rydym hefyd yn cynnwys y Gymraeg a gwybodaeth am ein rhwymedigaethau statudol mewn sesiwn 'Cyflwyniad i'r Gwledydd' a gynhelir bob tri mis i staff newydd ar draws y DU. Mae'r sesiwn hon wedi parhau i gael ei chyflwyno'n rhithwir yn ystod cyfnod y pandemig. Yn gynnar yn 2021 gwnaethom adnewyddu ein cyflwyniad ar y Gymraeg i'r holl staff newydd sy'n ymuno ag Ofcom fel rhan o'r broses gynefino ganolog ar draws y DU. Mae'r sesiwn hon wedi cael ei chyflwyno ar-lein yn ystod cyfnod y pandemig hefyd.
- 3.21 Ym mis Mawrth 2021, cyflwynodd ein Huwch Gynghorydd y Gymraeg sesiwn ar ein gwaith yn Gymraeg fel rhan o ddigwyddiad 'Sbotolau' ar-lein i holl aelodau staff Ofcom ar draws y DU.
- 3.22 Ym mis Medi 2021, cyflwynodd ein tîm Cymraeg sesiwn ar-lein ar y Gymraeg ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i aelodau staff Corfforaethol ar draws Ofcom. Mae ein tîm Cymraeg hefyd yn cynnal hyfforddiant Ymwybyddiaeth iaith wedi'i deilwra ar gyfer timau penodol o fewn y sefydliad fel y bo angen.
- 3.23 Rydym wrthi'n datblygu modiwl hyfforddiant rhyngweithiol gorfodol ar y Gymraeg y bydd yr holl staff yn ei gwblhau trwy ein porth Dysgu a Datblygu ar-lein ar y Mewnrwyd.
- 3.24 Yn olaf, mae Ofcom yn cynnal archwiliad o'r ffordd yr ydym yn cymryd buddiannau siaradwyr Cymraeg i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau rheoleiddio. Fel a amlinellir yn hysbysiad cydymffurfio Ofcom, rydym wedi mabwysiadu proses fwy ffurfiol o nodi'r deilliannau i siaradwyr Cymraeg mewn ffordd fwy strwythuredig a mesuradwy wrth wneud penderfyniadau polisi. Rydym yn gwneud hyn trwy ein Cynllun Gweithredu Safonau'r

⁹ <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements>

Gymraeg. ¹⁰ Mae hwn wedi'i fodelu ar fframwaith sy'n cael ei ddefnyddio ar draws Ofcom i werthuso deilliannau i gwsmeriaid.

Cwynion

- 3.25 Derbyniodd Ofcom un gŵyn mewn perthynas â'n cydymffurfiad â'r safonau cyflenwi gwasanaethau ym mis Chwefror 2021. Roedd y gŵyn yn gysylltiedig â gohebiaeth ynghylch un o arolygon Ofcom. Aseswyd y gŵyn gan Gomisiynydd y Gymraeg a nododd nad oedd yn bwriadu ymchwilio ymhellach i'r gŵyn gan fod Ofcom wedi cymryd camau boddhaol i ymdrin â'r mater.
- 3.26 Ym mis Mai 2021 anfonwyd cwyn at Gomisiynydd y Gymraeg ynglŷn â dyfarnu trwyddedau DAB amlblecs graddfa fach yn ardal Caerdydd. Mae Ofcom yn cydweithredu ag ymchwiliad y Comisiynydd i'r gŵyn.
- 3.27 Mae Gweithdrefn Gwynion Ofcom yn esbonio sut rydym yn ceisio delio â chwynion am ein safonau cyflenwi gwasanaethau. Gellir gweld y Weithdrefn Gwynion ar ein gwefan¹¹ ac mae ar gael hefyd fel copi caled yn swyddfa Ofcom Cymru. Gall aelodau o'r cyhoedd gysylltu â ni unrhyw bryd i drafod materion Cymraeg neu gwynion cysylltiedig, ac rydym yn annog nhw i wneud hyn ar y wefan.

Manylion Cyswllt

Os dymunwch gysylltu â ni ynglŷn â'n Safonau Cymraeg neu gynnwys yr adroddiad blynyddol hwn, gyrrwch e-bost atom yn: ymholiadaucymraeg@ofcom.org.uk

¹⁰ https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0008/103022/safonau-gymraeg-cynllun-gweithredu.pdf

¹¹ <https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/how-ofcom-is-run/nations-and-regions/wales/welsh-language>

A1. Ein gweithdrefn safonol ar gyfer cyfieithu dogfennau

- A.1.1 **Asesu'r angen am gyfieithu.** Os yw dogfen, (er enghraifft ymgynghoriad, adroddiad, crynodeb gweithredol, datganiad newyddion, tudalen we, trydar neu e-bost diweddar rhanddeiliaid), yn ymwneud â materion sy'n effeithio ar ddefnyddwyr a dinasyddion yng Nghymru, neu'n debygol o fod yn arbennig o berthnasol iddynt, byddwn yn cyhoeddi fersiwn Cymraeg ar yr un pryd â'r Saesneg.
- A.1.2 **Trafodaeth reolaidd am ofynion cyfieithu.** Mae penderfyniadau ynglŷn â chyfieithu Cymraeg yn cael eu trafod a'u cytuno trwy gyfarfodydd rheolaidd rhwng timau Gwledydd Ofcom, gan gynnwys ein tîm Cymraeg, a'n prif dîm Cyfathrebu a leolir yn Llundain.
- A.1.3 **Cydweithio'n agos â thimau polisi.** Mae'r rhai sy'n arwain prosiect yn cael eu hysbysu gan y tîm Cyfathrebu a'r tîm Cymraeg am yr angen am gyhoeddi fersiwn Cymraeg o'r ddogfen. Gall timau polisi uwchleuo'r gofyniad Cymraeg yn yr offeryn Rheoli Prosiect PPM Anywhere newydd hefyd. Mae'r gofyniad hwn wedyn yn cael ei gynnwys yn ein hamserlen gyhoeddiadau, i sicrhau y caiff y fersiwn Cymraeg ei drin ar sail gyfartal a'i gyhoeddi ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg.
- A.1.4 **Cydweithio'n agos â chyfieithwyr.** Mae gan Ofcom berthynas waith tra chadarnhaol â'n cyfieithwyr. Maent yn cael eu hysbysu mor bell ymlaen llaw â phosib am ofynion cyfieithu sydd ar y gweill, a chytunir ar amserlen ddychwelyd sy'n cyd-fynd â'r dyddiad cyhoeddi. Darperir cyfrif geiriau bras hefyd pryd bynnag y bo'n bosib. Mae ein cyfieithwyr yn cyfieithu dogfennau Ofcom yn gyson i'r safonau uchaf, ar amser. Maent hefyd yn cynnal rhestr o dermau cymhleth Ofcom, i sicrhau cysondeb ar draws cyfieithiadau. Maent yn gweithio i sicrhau bod cyfieithiadau Cymraeg mor glir a dealladwy â phosib, gan ddilyn egwyddorion "Cymraeg Clir".
- A.1.5 **Gwirio ansawdd.** Mae tîm Cymraeg Ofcom yn prawf-ddarllen ac yn golygu dogfennau a gyfieithir yn allanol i sicrhau'r cysondeb, arddull a thôn sy'n briodol i'r sefydliad yn ogystal â chywirdeb technegol. Wedi hynny, caiff y dogfennau eu hanfon ymlaen at y tîm digidol i gael eu cyhoeddi ar yr un pryd â'r fersiynau Saesneg.